

**A: Mwy o ehangu mynediad a chynhwysiant**

**1. Ehangu Mynediad**

*Nifer a chyfran y myfyrwyr israddedig o Gymru o bob oed sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn SAUau a SABau yng Nghymru sy'n hanu:*

*a) o'r ddau gwintel isaf*

*b) o'r cwintel isaf*

*Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (MALIC).*

*a) o'r ddau gwintel isaf*

Er i nifer y myfyrwyr israddedig o'r ddau gwintel isaf ostwng rhwng 2016/17 a 2017/18, cododd y gyfran ymhlith Darparwyr Addysg Uwch (DAUwyr) Cymru a DAUwyr y DU. Y rheswm am hyn yw bod cyfanswm y myfyrwyr israddedig sy'n hanu o Gymru wedi gostwng ar gyfradd uwch na'r nifer o'r ddau gwintel isaf. Ymhlith DAUwyr Cymru gostyngodd nifer y myfyrwyr o'r ddau gwintel isaf o 21,620 i 21,410 a chododd y gyfran o 37.6 y cant i 38.2 y cant. YN DAUwyr y DU, gostyngodd y nifer o 27,185 i 27,110 a chododd y gyfran o 32.7 y cant i 33.2 y cant.

Ymhlith DAUwyr unigol Cymru yn 2017/18, roedd y gyfran yn amrywio rhwng 22.4 y cant a 48.0 y cant. Ar draws y cyfnod hwnnw, cododd y nifer mewn saith darparydd, gostyngodd ym mhedwar ohonynt, ac arhosodd ar lefel debyg mewn darparydd arall. O ran cyfran, cafwyd cynnydd yn wyth a gostyngiad ym mhedwar ohonynt.

*b) o'r cwintel isaf*

Er i nifer y myfyrwyr israddedig o'r cwintel isaf ostwng ymhlith DAUwyr Cymru rhwng 2016/17 a 2017/8, cododd y gyfran. Yn DAUwyr y DU cafwyd cynnydd o ran nifer ac o ran cyfran. YN DAUwyr Cymru, gostyngodd y nifer o 10,235 i 10,200 a chododd y gyfran o 17.8 y cant i 18.2 y cant. YN DAUwyr y DU, cododd y nifer o 12,535 i 12,570 a chododd y gyfran o 15.1 y cant i 15.4 y cant.

Ymhlith DAUwyr unigol Cymru yn 2017/18, roedd y gyfran yn amrywio rhwng 8.6 y cant a 24.3 y cant. Ar draws y cyfnod, cododd y nifer mewn saith DAU a gostyngodd ym mhump ohonynt. Cododd y gyfran yn saith ohonynt, gostyngodd ym mhedwar ohonynt ac arhosodd ar lefel debyg yn un ohonynt.

**2. Cyfranogiad**

*Nifer a chyfran y dechreuwyr israddedig o bob oed sy'n hanu o'r DU sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn SAUau a SABau yng Nghymru sy'n dod o ardaloedd cyfranogiad isel yn y DU.*

*a) Dechreuwyr israddedig ifanc amser llawn sy'n hanu o'r DU*

Rhwng 2016/17 a 2017/18 arhosodd nifer y myfyrwyr israddedig ifanc amser llawn o ardaloedd cyfranogiad isel ar lefel debyg yn DAUwyr Cymru, ond cododd y gyfran ohonynt. Y rheswm am hyn yw bod nifer yr israddedigion ifanc amser llawn mewn DAUwyr yng Nghymru a oedd yn hanu o'r DU wedi gostwng. Yn DAUwyr y DU cododd nifer a chyfran yr israddedigion ifanc amser llawn o ardaloedd cyfranogiad isel. Yn DAUwyr Cymru, arhosodd y nifer ar 2,485 yn y naill flwyddyn a'r llall, a chododd y gyfran o 13.6 y cant i 13.9 y cant. Yn DAUwyr y DU, cododd y nifer o 35,495 i 36,155 a chododd y gyfran o 11.4 y cant i 11.6 y cant.

Ymhlith DAUwyr unigol Cymru yn 2017/18, roedd y gyfran yn amrywio rhwng 9.8 y cant a 23.7 y cant. Ar draws y cyfnod, ymhlith y DAUwyr hynny a chanddynt ddwy flynedd o ddata DP cyhoeddedig HESA<sup>1</sup>, cododd y nifer ym mhedwar a gostwng ym mhedwar, a chododd y gyfran ym mhedwar a gostwng ym mhedwar.

*b) Dechreuwyr israddedig aeddfed amser llawn sy'n hanu o'r DU*

Rhwng 2016/18 a 2017/18 cododd nifer yr israddedigion aeddfed amser llawn o ardaloedd cyfranogiad isel yn DAUwyr Cymru, ond gostyngodd y gyfran ohonynt. Y rheswm am hyn yw bod nifer y dechreuwyr israddedig aeddfed amser llawn a oedd yn hanu o'r DU ar gyfradd uwch na'r nifer o ardaloedd cyfranogiad isel. Yn DAUwyr y DU cododd nifer a chyfran yr israddedigion aeddfed amser llawn o ardaloedd cyfranogiad isel. Yn DAUwyr Cymru, cododd y nifer o 885 i 1,060 a gostyngodd y gyfran o 15.6 y cant i 15.1 y cant. Yn DAUwyr y DU, cododd y nifer o 11,430 i 11,810 a chododd y gyfran o 10.9 y cant i 11.0 y cant.

Ymhlith DAUwyr unigol Cymru yn 2017/18, roedd y gyfran yn amrywio rhwng 5.3 y cant a 19.5 y cant. Ar draws y cyfnod, ymhlith y DAUwyr hynny a chanddynt ddwy flynedd o ddata DP cyhoeddedig HESA, cododd y nifer ym mhump a gostwng yn un, ac arhosodd ar lefel debyg yn nau ohonynt; cododd y gyfran ym mhump a gostwng yn nhair ohonynt.

*c) Dechreuwyr israddedig rhan-amser sy'n hanu o'r DU*

Rhwng 2016/17 a 2017/18 gostyngodd nifer a chyfran y dechreuwyr israddedig rhan-amser yn DAUwyr Cymru, ond yn DAUwyr y DU gostyngodd y nifer a chododd y gyfran. Yn DAUwyr Cymru, gostyngodd y nifer o 1,360 i 1,250, a gostyngodd y gyfran 0.1 pwynt canran i 11.0 y cant. Yn DAUwyr y DU, gostyngodd y nifer o 9,320 i 9,170, a chododd y gyfran 0.1 pwynt canran i 9.1 y cant.

Ymhlith DAUwyr unigol Cymru yn 2017/18, roedd y gyfran yn amrywio rhwng 3.4 y cant ac 17.4 y cant. Ar draws y cyfnod, ymhlith y DAUwyr hynny a chanddynt ddwy flynedd o ddata DP cyhoeddedig HESA, cododd y nifer yn nau, gostwng yn chwech, ac aros ar lefel debyg yn un ohonynt; cododd y gyfran ym mhump, gostwng yn nhri ac aros ar lefel debyg yn un ohonynt.

### 3. Cadw

*Cyfran y myfyrwyr israddedig amser llawn mewn SAUau a SABau yng Nghymru sy'n bresennol mewn addysg uwch flwyddyn ar ôl dechrau eu cwrs ymhlith*

- a) myfyrwyr sy'n hanu o'r DU;*
- b) myfyrwyr sy'n hanu o ddau gwintel isaf MALIC*

*hefyd, cyfran y myfyrwyr gradd gyntaf rhan-amser mewn SAUau a SABau yng Nghymru sy'n bresennol mewn addysg uwch ddwy flynedd ar ôl dechrau eu cwrs ymhlith:*

- c) myfyrwyr sy'n hanu o'r DU;*
- d) myfyrwyr sy'n hanu o ddau gwintel isaf MALIC.*

<sup>1</sup> Cyflwynodd SABau ddata ar fyfyrwyr i HESA yn 2016/17 am y tro cyntaf. Fodd bynnag, daliwyd eu data ar DP cyfranogiad ar gyfer y flwyddyn hon yn ôl oherwydd phroblemau'n gysylltiedig ag ansawdd y data.

*a) Myfyrwyr sy'n hanu o'r DU*

Yn DAUwyr Cymru<sup>2</sup>, rhwng 2016/17 a 2017/18, gostyngodd cyfran y myfyrwyr israddedig amser llawn a oedd yn hanu o'r DU a oedd yn bresennol mewn addysg uwch flwyddyn ar ôl dechrau eu cwrs 0.1 pwynt canran i 91.8 y cant.

Ymhlith DAUwyr unigol Cymru yn 2017/18, roedd y gyfran yn amrywio rhwng 81.6 y cant a 95.9 y cant. Ar draws y cyfnod, ymhlith y DAUwyr hynny a chanddynt ddwy flynedd o ddata DP cyhoeddedig HESA, gostyngodd y gyfran ym mhedwar DAU, cododd yn nhri ac arhosodd ar lefel debyg yn un ohonynt.

*b) Myfyrwyr sy'n hanu o ddau gwintel isaf MALIC*

Yn DAUwyr Cymru, rhwng 2016/17 a 2017/18, cododd cyfran y myfyrwyr israddedig amser llawn a oedd yn hanu o ddau gwintel isaf MALIC a oedd yn bresennol mewn addysg uwch flwyddyn ar ôl dechrau eu cwrs o 87.2 y cant i 88.9 y cant.

Ymhlith DAUwyr unigol Cymru yn 2017/18, roedd y gyfran yn amrywio rhwng 83.6 y cant a 94.7 y cant. Ar draws y cyfnod, ymhlith y DAUwyr hynny a chanddynt ddwy flynedd o ddata DP cyhoeddedig HESA, gostyngodd y gyfran mewn tri DAU, cododd mewn pedwar DAU ac arhosodd ar lefel debyg mewn DAU arall.

*c) Myfyrwyr sy'n hanu o'r DU*

Yn DAUwyr Cymru, rhwng 2016/17 a 2017/18, cododd cyfran y myfyrwyr israddedig rhan-amser a oedd yn hanu o'r DU a oedd yn bresennol mewn addysg uwch ddwy flynedd ar ôl dechrau eu cwrs o 59.3 y cant i 62.8 y cant.

Ymhlith DAUwyr unigol yng Nghymru lle na chaiff canrannau eu dal yn ôl oherwydd niferoedd isel, roedd y gyfran yn 2017/18 yn amrywio rhwng 56.1 y cant ac 85.2 y cant. Yn y DAUwyr hynny dros y cyfnod dan sylw, gostyngodd y gyfran mewn tri DAU a chodi mewn tri DAU arall.

*d) Myfyrwyr sy'n hanu o ddau gwintel isaf MALIC*

Yn DAUwyr Cymru, rhwng 2016/17 a 2017/18, cododd cyfran y myfyrwyr israddedig rhan-amser a oedd yn hanu o ddau gwintel isaf MALIC a oedd yn bresennol mewn addysg uwch ddwy flynedd ar ôl dechrau eu cwrs o 55.4 y cant i 56.7 y cant.

Yn y rhan hon o'r mesuriad hwn, cafodd canrannau eu dal yn ôl oherwydd niferoedd isel ym mwyafrif SAUau Cymru.

**4. Rhan-amser**

*a) Nifer a chyfran y myfyrwyr sy'n mynychu cyrsiau addysg uwch mewn SAUau a SABau yng Nghymru sydd yn gwneud hynny'n rhan-amser,*

*b) ynghyd â'r newid canrannol o'r naill flwyddyn i'r nesaf yn nifer y myfyrwyr rhan-amser hyn o gymharu â'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU (mesur y sector)*

*a) Nifer a chyfran y myfyrwyr sy'n mynychu cyrsiau addysg uwch mewn SAUau a SABau yng Nghymru sydd yn gwneud hynny'n rhan-amser*

<sup>2</sup> Cyflwynodd SABau ddata am y tro cyntaf i HESA yn 2016/17. Mae hyn yn golygu bod blwyddyn o ddata ar gael ar gyfer cyfraddau cadw amser llawn, ac nad oes unrhyw ddata ar gael ar gyfer cyfraddau cadw rhan-amser yn DAUwyr Cymru o dan y mesuriad hwn. Nid yw ffigurau'r DU wedi'u cyfrif eto.

Rhwng 2015/16 a 2017/18, cododd nifer a chyfran y myfyrwyr sy'n rhan-amser yn DAUwyr Cymru a'r DU. Yn DAUwyr Cymru, gostyngodd y nifer o 37,540 i 33,955 a gostyngodd y gyfran 2.7 pwynt canran i 26.2 y cant. Yn DAUwyr y DU, gostyngodd y nifer o 587,885 i 544,865 a gostyngodd y gyfran 2.3 pwynt canran i 22.0 y cant.

Ymhlith DAUwyr unigol Cymru, yn 2017/18 roedd cyfran y myfyrwyr rhan-amser yn amrywio rhwng 12.7 y cant a 100 y cant. Ar draws y cyfnod, cododd y nifer mewn pum DAU a gostyngodd mewn wyth. Ac ymhlith y DAUwyr lle na chafodd y gyfran ei dal yn ôl oherwydd niferoedd isel, cododd y gyfran ym mhedwar DAU, gostyngodd mewn chwech ac arhosodd ar yr un lefel mewn dau.

*b) ynghyd â'r newid canrannol o'r naill flwyddyn i'r nesaf yn nifer y myfyrwyr rhan-amser hyn o gymharu â'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU (mesur y sector)*

Roedd y newid canrannol blynyddol yn nifer y myfyrwyr rhan-amser mewn DAUwyr yng Nghymru yn -4.5 y cant yn 2016/17 ac yn -5.3 y cant yn 2017/18. Roedd hyn yn is na ffigurau cyfatebol DAUwyr y DU yn y naill flwyddyn a'r llall, sef -3.6 y cant a -3.8 y cant yn y drefn honno.

### 5. Amrywiaeth y boblogaeth o fyfyrwyr

[Dolen i ddata cydraddoldeb ac amrywiaeth fel y'u cyhoeddwyd ar wefan CCAUC.](#)  
[Dolen i ddata agored myfyrwyr HESA \(yn cynnwys tablau ar nodweddion cydraddoldeb\)](#)

Gweler hefyd yr adran cydraddoldeb myfyrwyr ar System Rheoli Gwybodaeth CCAUC

Caiff data cydraddoldeb ac amrywiaeth myfyrwyr ar lefel sector eu cyhoeddi ar wefan CCAUC, ac mae data cydraddoldeb ac amrywiaeth myfyrwyr ar lefel DAU ar gael yn fewnol ar System Rheoli Gwybodaeth CCAUC, ac yn gyhoeddus yn nata agored HESA.

## B: Gwella profiad myfyrwyr

### 6. Arolwg Cenedlaethol o Fyfywyr

*Sgôr cyfartalog Cymru dros dair blynedd treigl yng nghwestiwn 'bodlonrwydd cyffredinol' Arolwg Cenedlaethol o Fyfywyr, o gymharu â'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU.*

*[mesur y sector, a chyfartaledd dros dair blynedd treigl fesul sefydliad]*

Sgôr cyfartalog Cymru dros tair blynedd treigl yn yr NSS yn 2018 yw 85.3 sydd yn uwch na'r sgôr cyfatebol o 84.3 ar gyfer y DU.

Ymhlith DAUwyr unigol yng Nghymru, mae'r ffigur hwn yn amrywio rhwng 80.3 a 96.7, gyda sgôr wyth DAU yn uwch na ffigur y DU a sgôr tri DAU yn is na'r ffigur hwnnw.

### 7. Cyfrwng Cymraeg

*Nifer y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn SAUau a SABau yng Nghymru, sy'n dilyn*

- a) o leiaf 5 credyd  
b) o leiaf 40 credyd

*o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg bob blwyddyn.*

- a) o leiaf 5 credyd

Rhwng 2016/17 a 2017/18, gostyngodd nifer y myfyrwyr a oedd yn astudio 5 neu fwy o'u credydau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn DAUwyr yng Nghymru, o 5,575 i 5,390.

Yn 2017/18, mewn DAUwyr unigol lle'r oedd myfyrwyr yn astudio 5 credyd neu fwy, roedd y nifer yn amrywio rhwng 5 a 2,020. Yn y DAUwyr hyn, ar draws y cyfnod, gostyngodd y nifer ym mhedwar ohonynt, cododd mewn pedwar arall, ac arhosodd yr un peth mewn tri.

- b) o leiaf 40 credyd

Rhwng 2016/17 a 2017/18, cododd nifer y myfyrwyr a oedd yn astudio 40 neu fwy o'u credydau drwy gyfrwng y Gymraeg o 2,325 i 2,555.

Yn 2017/18, mewn DAUwyr unigol a chanddynt ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o 40 credyd neu fwy, roedd y nifer yn amrywio rhwng 100 a 980. Yn y DAUwyr hyn, ar draws y cyfnod, gostyngodd y nifer mewn tri a chodi mewn pum DAU.

## 8. Symudedd myfyrwyr

*Nifer a chanran y myfyrwyr israddedig mewn DAUwyr yng Nghymru sy'n manteisio ar gyfleoedd i astudio, gweithio a gwirfoddoli dramor ymhlith:*

- a) yr holl fyfyrwyr israddedig  
b) myfyrwyr israddedig sy'n hanu o ddau gwintel isaf MALIC

- a) yr holl fyfyrwyr israddedig

Rhwng 2016/17 a 2017/18 cododd nifer a chanran y myfyrwyr israddedig yn SAUau a DAU y DU a fanteisiodd ar gyfleoedd i astudio, gweithio a gwirfoddoli dramor. Yn DAUwyr y DU, cododd y nifer o 2,605 i 2,990, a chododd y gyfran 0.4 pwynt canran i 2.9 y cant. Yn DAUwyr y DU, gostyngodd y nifer o 36,705 i 42,655, a chododd y gyfran 0.3 pwynt canran i 2.4 y cant.

Yn 2017/18, ymhlith SAUau unigol yng Nghymru lle'r oedd myfyrwyr yn manteisio ar brofiadau dramor, roedd y nifer yn amrywio rhwng 15 a 2,075 a'r gyfran yn amrywio rhwng 0.1 y cant ac 8.8 y cant. Ar draws y cyfnod cododd y nifer mewn pedwar DAU, gostyngodd yn \*\* un ac arhosodd ar lefel debyg mewn dau. Cododd y gyfran mewn tri DAU, gostyngodd mewn dau ac arhosodd ar lefel debyg mewn dau.

- b) Myfyrwyr israddedig sy'n hanu o ddau gwintel isaf MALIC

Rhwng 2016/17 a 2017/18 cododd nifer a chanran y myfyrwyr a oedd yn hanu o'r ddau gwintel isaf ym MALIC yn SAUau a DAUwyr y DU a fanteisiodd ar gyfleoedd i astudio, gweithio a gwirfoddoli dramor. Yn SAUau Cymru, cododd y nifer o 145 i 170, a chododd y gyfran 0.1 pwynt canran i 0.8 y cant. Yn DAUwyr y DU, cododd y nifer o 260 i 300, a chododd y gyfran 0.2 pwynt canran i 1.1 y cant.

Yn 2017/18, ymhlith SAUau unigol yng Nghymru lle'r oedd myfyrwyr yn manteisio ar gyfleoedd tramor, roedd y gyfran yn amrywio rhwng 0 y cant a 3.6 y cant. Ar draws y

cyfnod, cododd y nifer mewn tri SAU, gostyngodd mewn dau ac arhosodd ar lefel debyg mewn dau. Cododd y gyfran mewn tri SAU, gostyngodd mewn tri ac arhosodd ar lefel debyg mewn dau, ond roedd y niferoedd yn isel ym mhedwar SAU.

#### 9. Ansawdd

*Canlyniadau Adolygiad Gwella Ansawdd yr ASA ar gyfer pob SAU a SAB sy'n cael ei adolygu.*

Ers 2017/18, mae dau DAU wedi cael eu hadolygu gan yr ASA, a derbyniodd y naill a'r llall adolygiadau llwyddiannus, gyda'r holl ddyfarniadau'n bodloni'r gofynion.

#### 10. Cwynion i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol

*Cyfanswm y cwynion (wedi'u cyfiawnhau, eu cyfiawnhau'n rhannol a'u setlo) a wnaed yn erbyn sefydliadau yng Nghymru i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, fel yr adroddwyd yn adroddiad blynyddol a datganiadau blynyddol y Swyddfa honno.*

Rhwng 2016 a 2018 gostyngodd nifer y Cwynion i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn erbyn DAUwyr Cymru o 52 i 19.

Yn 2017/18, ymhlith y DAUwyr yng Nghymru y gwnaed cwyn yn eu herbyn, roedd nifer y cwynion yn amrywio rhwng 1 ac 8. Ni chafwyd yr un gŵyn yn erbyn chwe DAU.

### C: Cryfhau sgiliau, cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth

#### 11. Cyflogaeth

*Cyfran yr ymadawyr o SAUau a SABau a enillodd gymwysterau israddedig a oedd yn cael eu cyflogi, yn astudio neu'r ddau 6 mis ar ôl ymadael, o gymharu â'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU.*

*(O 2017/18<sup>3</sup>, edrychir ar 15 mis ar ôl ymadael.)*

Yn 2016/17, 95.9 y cant oedd cyfran yr ymadawyr o DAUwyr yng Nghymru a enillodd gymwysterau israddedig a oedd yn cael eu cyflogi, yn astudio neu'r ddau 6 mis ar ôl ymadael. Y ffigur cyfatebol ar gyfer DAU y DU oedd 94.9 y cant.

Ymhlith DAUwyr unigol yng Nghymru, roedd y ffigur hwn yn amrywio rhwng 92.2 y cant a 99.1 y cant. Mewn saith DAU, roedd y gyfran yn uwch neu'n hafal i gyfran y DU o 94.9, ac mewn dau DAU roedd y gyfran yn is na chyfran y DU.

#### 12. Cyflogaeth graddedigion

*Cyfran yr ymadawyr o SAUau a SABau yng Nghymru a oedd yn gweithio neu'n gweithio ac yn astudio, a oedd yn gweithio mewn swydd reoli/broffesiynol 6 mis ar ôl ymadael. (O 2017/18, edrychir ar 15 mis ar ôl ymadael.)*

Yn 2016/17, roedd cyfran yr ymadawyr o DAUwyr yng Nghymru a oedd yn gweithio neu'n gweithio ac yn astudio, a oedd yn gweithio mewn swydd

<sup>3</sup> Bydd data ar gyfer 2017/18 ar gael yn nhymor y gwanwyn o arolwg Deilliannau Myfyrwyr ac ni fydd modd cymharu'r data hynny'n uniongyrchol â data 2016/17 o DLHE, gan fod arolwg DLHE yn cael ei gynnal 6 mis ar ôl ymadael a'r arolwg Deilliannau Myfyrwyr yn cael ei gynnal 15 mis ar ôl ymadael.

reoli/broffesiynol 6 mis ar ôl ymadael ar 72.5 y cant. Y ffigur cyfatebol ar gyfer DAUwyr y DU oedd 79.0 y cant.

Ymhlith DAUwyr unigol yng Nghymru, roedd y ffigur hwn yn amrywio rhwng 41.8 y cant ac 80.7 y cant. Mewn tri DAU, roedd y gyfran yn uwch na chyfran sector Cymru o 72.5, ac mewn saith DAU roedd y gyfran honno'n is. Daliwyd canrannau'r DAUwyr a oedd yn weddill yn ôl gan fod y niferoedd yn isel.

### 13. Datblygiad proffesiynol parhaus

*Cyfanswm y diwrnodiau dysgwr a ddarparwyd gan SAU ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ac addysg barhaus, a gofnodwyd yn arolwg HE-BCI.*

Rhwng 2016/17 a 2017/18 gostyngodd cyfanswm y diwrnodiau dysgwr a ddarparwyd gan SAUau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ac addysg barhaus o 267,904 i 254,753, gostyngiad o 4.9 y cant. Yn DAUwyr y DU cafwyd gostyngiad o 9.6 y cant i'r gweithgarwch hwn.

Yn 2017/18, ymhlith DAUwyr unigol yng Nghymru, roedd y gweithgarwch hwn yn amrywio rhwng 7,011 a 70,891 a rhwng 2016/17 a 2017/18, gostyngodd gweithgarwch ym mhedwar DAU, a chynyddu ym mhedwar DAU.

## D: Ehangu arloesi ac ymgysylltu

### 14. Cyfanswm incwm HE-BCI fesul Aelod Staff Academaidd CALI.

*Cyfanswm yr incwm a gofnodwyd yn yr arolwg HE-BCI o ymchwil gydwethredol, ymgynghori, ymchwil seiliedig ar gontract, datblygiad proffesiynol parhaus, gwasanaethau cysylltiedig â chyfleusterau a chyfarpar, eiddo deallusol ac adfywio a datblygu, wedi'i rannu â nifer y staff academaidd CALI.*

Rhwng 2016/17 a 2017/18, cododd cymhareb yr incwm HE-BCI i nifer y staff academaidd CALI yn SAUau yng Nghymru <sup>4</sup> o 20 i 23.

Yn 2017/18, ymhlith SAUau unigol yng Nghymru a chanddynt incwm HE-BCI, roedd y gymhareb hon yn amrywio rhwng 9 a 35, gyda thri SAUau yn uwch na chymhareb y sector o 23, a phump yn is na'r gymhareb honno. Rhwng 2016/17 a 2017/18 cododd y gymhareb hon yn holl SAUau Cymru wrth i incwm HE-BCI gynyddu.

### 15. Gweithgarwch deilliedig

*Deilliannau newydd a deilliannau sydd yn dal yn weithredol ac sydd wedi goroesi tair blynedd o leiaf.*

#### a) Deilliannau newydd

Rhwng 2016/17 a 2017/18 gostyngodd y deilliannau newydd mewn SAUau yng Nghymru o 16 i 10. Yn 2016/17, sefydlodd pedwar SAU ddeilliannau newydd, ond yn 2017/18 dim ond dau SAU a wnaeth hynny.

<sup>4</sup> Nid yw ffigurau'r DU wedi'u cyfrif eto ar gyfer y mesur hwn.

b) *deilliannau sy'n dal yn weithredol ac sydd wedi goroesi tair blynedd o leiaf*  
Rhwyng 2016/17 a 2017/18, cododd nifer y deilliannau sy'n dal yn weithredol ac sydd wedi goroesi tair blynedd o leiaf yn SAUau Cymru o 98 i 103. Yn y ddwy flynedd, roedd gan holl SAUau Cymru ddeilliannau a oedd wedi goroesi tair blynedd o leiaf. Yn 2017/18, mewn SAUau unigol, roedd nifer y deilliannau a oedd wedi goroesi tair blynedd o leiaf yn amrywio rhwng 2 a 36.

#### 16. Gweithgarwch busnesau (graddedig)

*Busnesau newydd a busnesau sy'n dal yn weithredol ac sydd wedi goroesi tair blynedd o leiaf*

##### a) *Busnesau newydd*

Rhwng 2016/17 a 2017/18, cynyddodd nifer y busnesau newydd mewn SAUau yng Nghymru o 241 i 254.

Yn 2017/18, ymhlith SAUau unigol yng Nghymru, roedd nifer y busnesau newydd yn amrywio rhwng 8 ac 81. Ar draws y cyfnod gostyngodd y nifer mewn tri SAU a chodi ym mhump.

##### b) *busnesau newydd sy'n dal yn weithredol ac sydd wedi goroesi tair blynedd o leiaf*

Rhwng 2016/17 a 2017/18, cododd nifer y busnesau a oedd yn dal yn weithredol ac a oedd wedi goroesi tair blynedd o leiaf yn SAUau Cymru o 780 i 901.

Yn 2017/18, ymhlith SAUau unigol yng Nghymru a chanddynt busnesau sy'n dal yn weithredol ac wedi goroesi tair blynedd o leiaf, roedd y nifer yn amrywio rhwng 20 a 413. Ar draws y cyfnod, cododd y nifer mewn chwe SAU ac arhosodd yr un peth mewn un arall.

#### 17. Canlyniadau effaith FfRHY

[Dolen i ddata'r FfRhY fel y'u cyhoeddwyd ar wefan CCAUC](#)

[Dolen i wefan REF2021](#)

Er nad oes dull penodol wedi'i bennu er mwyn mesur canlyniadau effaith y FfRhY<sup>5</sup>, caiff y data hyn eu monitro yn rhan o fusnes arferol CCAUC. Ystyrir y data hefyd gan Gyngor CCAUC a Phwyllgor Ymchwil Cymru.

Cyhoeddir data FfRhY1 2014 ar wefan CCAUC, ac mae'r data ar gael yn fewnol ar KMS CCAUC, ac yn gyhoeddus ar wefan REF2021.

### E: Cynyddu ymchwil sy'n rhagori'n rhyngwladol

#### 18. Staff Ymchwil

*Nifer yr*

a) *Ymchwilwyr (cyfanswm)*

<sup>5</sup> Adroddwyd canlyniadau'r FfRhY ddiwethaf yn 2014. Bydd canlyniadau'r FfRhY nesaf (REF 2021) ar gael i'w dadansoddi ym mis Rhagfyr 2021.



*b) Ymchwilwyr STEM*

*c) Ymchwilwyr nad ydynt yn ymchwilwyr STEM*

*a) Cyfanswm yr ymchwilwyr*

Rhwng 2016/17 a 2017/18, gostyngodd nifer yr ymchwilwyr yn SAUau Cymru o 5,795 i 5,750, ac yn DAUwyr y DU cododd y nifer o 136,380 i 137,370.

Ymhlith SAUau unigol yng Nghymru, ac eithrio Prifysgol Cymru, roedd mwyafrif yr ymchwilwyr yn addysgu ac yn ymchwilio yn rhan o'u swydd academaidd. Yn 2017/18, ymhlith SAUau unigol, ac eithrio Prifysgol Cymru, roedd cyfran yr ymchwilwyr a oedd yn ymchwilio yn unig yn eu swydd academaidd yn amrywio rhwng 1.9 y cant a 44.9 y cant. Ym Mhrifysgol Cymru, roedd 100 o ymchwilwyr yn ymchwilio yn unig yn eu swydd academaidd. Ar draws y cyfnod, o ran cyfran yr ymchwilwyr a oedd yn ymchwilio yn unig yn eu swydd academaidd, cafwyd cynnydd mewn pum SAU, arhosodd hyn ar yr un lefel mewn dau sefydliad, a gostyngodd mewn dau sefydliad arall.

*b) Ymchwilwyr STEM*

Rhwng 2016/17 a 2017/18, cododd nifer yr ymchwilwyr STEM yn SAUau Cymru o 3,220 i 3,285, ac yn DAUwyr y DU cododd y nifer o 82,755 i 83,530.

Yn 2017/18, ymhlith SAUau unigol yng Nghymru, roedd cyfran yr ymchwilwyr STEM a oedd yn ymchwilio yn unig yn eu swydd academaidd yn amrywio rhwng 4.2 y cant a 56.4 y cant. Mewn tri SAU, roedd mwyafrif yr ymchwilwyr STEM yn ymchwilio yn unig yn eu swydd academaidd, tra'r oedd y mwyafrif yn y pum SAU arall yn addysgu ac yn ymchwilio yn eu swydd academaidd. Ar draws y cyfnod, cododd cyfran yr ymchwilwyr STEM a oedd yn ymchwilio yn unig yn eu swydd academaidd mewn chwe SAU, a gostwng mewn dau SAU. Nid oedd unrhyw ymchwilwyr STEM ym Mhrifysgol Cymru.

*c) Ymchwilwyr nad ydynt yn ymchwilwyr STEM*

Rhwng 2016/17 a 2017/18, gostyngodd nifer yr ymchwilwyr nad ydynt yn ymchwilwyr STEM yn SAUau Cymru o 2,545 i 2,435, ac yn DAUwyr y DU cododd y nifer o 52,775 i 53,055.

Ymhlith SAUau unigol yng Nghymru, ac eithrio Prifysgol Cymru, roedd mwyafrif yr ymchwilwyr nad ydynt yn ymchwilwyr STEM yn addysgu ac yn ymchwilio yn rhan o'u swydd academaidd. Yn 2017/18, ymhlith SAUau unigol, ac eithrio Prifysgol Cymru, roedd cyfran yr ymchwilwyr nad oeddent yn ymchwilwyr STEM a oedd yn ymchwilio yn unig yn eu swydd academaidd yn amrywio rhwng 0 y cant a 20.3 y cant. Ym Mhrifysgol Cymru, roedd 100 y cant o ymchwilwyr nad oeddent yn ymchwilwyr STEM yn ymchwilio yn unig yn eu swydd academaidd. Ar draws y cyfnod, o ran cyfran yr ymchwilwyr nad oeddent yn ymchwilwyr STEM a oedd yn ymchwilio yn unig yn eu swydd academaidd, cafwyd cynnydd mewn pum SAU, arhosodd hyn ar yr un lefel mewn dau sefydliad, a gostyngodd mewn dau sefydliad arall.

**19. Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig**

*Cyfanswm y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig (CALI)*

Rhwng 2016/17 a 2017/18 gostyngodd nifer y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn SAUau Cymru o 4,050 i 4,040 tra gostyngodd y nifer yn DAUwyr y DU o 100,560 i 100,220.

Yn 2017/18, ymhlith SAUau unigol yng Nghymru, roedd nifer y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn amrywio rhwng 5 a 1,840. Ar draws y cyfnod, cododd nifer y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig mewn tri SAU, arhosodd ar yr un lefel mewn dau, a gostwng mewn pedwar.

## 20. Doethuriaethau (PhDs) a ddyfarnwyd

*Cyfanswm y PhDs a ddyfarnwyd.*

### Sylw ystadegol

Rhwng 2016/17 a 2017/18 cododd nifer y PhDs a ddyfarnwyd yn SAUau Cymru o 925 i 930, tra cododd y nifer yn DAUwyr y DU o 23,650 i 24,850.

Yn 2017/18, ymhlith SAUau unigol yng Nghymru a ddyfarnodd PhDs y flwyddyn honno, roedd nifer y PhDs a ddyfarnwyd yn amrywio rhwng 5 a 460. Ar draws y cyfnod, cododd nifer y PhDs a ddyfarnwyd mewn tri SAU, arhosodd ar lefel debyg mewn un SAU, a gostyngodd y nifer hwnnw mewn pedwar SAU.

## 21. Incwm ymchwil

*Y newid canrannol mewn incwm o*

- a) *Gyfanswm ymchwil; a*
- b) *Chynghorau Ymchwil*

*o gymharu â'r ffigur cymharol ar gyfer y DU, ac eithrio 'triongl aur' Rhydychen, Caergrawnt a rhai sefydliadau yn Llundain)*

### a) *Cyfanswm ymchwil*

Yn 2016/17, y newid canrannol blynyddol mewn incwm o gyfanswm Ymchwil yn SAUau Cymru oedd -7.0 y cant, a oedd yn is na ffigur cyfatebol y DU ac eithrio SAUau y triongl aur, sef 3.1 y cant. Yn 2017/18, 8.4 y cant oedd ffigur Cymru, a oedd yn uwch na ffigur y DU o 5.6 y cant.

Ymhlith SAUau unigol yng Nghymru, roedd ffigur 2017/18 yn uwch na ffigur y DU mewn pum SAU ac yn is na ffigur y DU mewn pedwar arall.

### b) *Cynghorau Ymchwil*

Yn 2016/17, 23.1 y cant oedd y newid canrannol blynyddol mewn incwm o Gynghorau Ymchwil yn SAUau Cymru, a oedd yn is na'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU, sef 0.1 y cant. Yn 2017/18, 7.0 y cant oedd ffigur Cymru, a oedd yn uwch na ffigur y DU o 3.0 y cant.

Ymhlith SAUau unigol yng Nghymru, roedd ffigur 2017/18 yn uwch na ffigur y DU mewn pedwar SAU ac yn is na ffigur y DU mewn pump arall.

## 22. Canlyniadau'r FfRhY

[Dolen i ddata'r FfRhY fel y'u cyhoeddwyd ar wefan CCAUC](#)  
[Dolen i wefan REF2021](#)

Er na phennwyd unrhyw ddull penodol o fesur canlyniadau'r FfRhY, caiff y data hyn eu monitro yn rhan o fusnes arferol CCAUC, ac fe'u hystyrir gan Gyngor CCAUC a Phwyllgor Ymchwil Cymru.

Cyhoeddir data FfRhY 2014 ar wefan CCAUC, ac mae'r data ar gael yn fewnol ar KMS CCAUC, ac yn gyhoeddus ar wefan REF2021.

## F: Mesurau eraill i'w monitro

### 23. Iechyd ariannol

[Dolen i ddata iechyd ariannol a gyhoeddwyd ar wefan CCAUC](#)

[Dolen i ddata cyllid agored HESA](#)

Er na phennwyd unrhyw ddull penodol o fesur iechyd ariannol SAUau Cymru, caiff y data hyn eu monitro yn rhan o fusnes arferol CCAUC, ac fe'u hystyrir gan Gyngor a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg CCAUC.

Cyhoeddir gwybodaeth am ddull CCAUC o fonitro iechyd ariannol SAUau ar wefan CCAUC. Mae data ariannol ar gyfer DAUwyr y DU ar gael yn nata agored HETA.

### 24. Ystadau

[Dolen i Ddata Cofnodion Rheoli Ystadau ar wefan CCAUC](#)

[Dolen i ddata agored HESA ar ystadau](#)

Er na phennwyd unrhyw fesuriad penodol yn gysylltiedig ag ystadau SAUau Cymru, caiff y data hyn eu monitro yn rhan o fusnes arferol CCAUC, ac fe'u hystyrir gan Gyngor a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg CCAUC.

Cyhoeddir gwybodaeth am ddull CCAUC o fonitro ystadau SAUau Cymru ar wefan CCAUC. Mae data ar ystadau SAUau Cymru ar gael yn fewnol ar System Rheoli Gwybodaeth CCAUC, ac yn gyhoeddus yn nata agored HESA.

### 25. Cyflogau staff uwch a'r bwch rhwng cyflogau'r rhywiau

[Dolen i'r dudalen cyflogau staff ar wefan CCAUC](#)

[Dolen i gyflogau aelodau uwch o staff yn nata agored HESA](#)

[Dolen i dabl 17 data agored staff HESA \(cyflog contract, rhyw, darparrydd AU\)](#)

Er na phennwyd unrhyw ddull penodol o fesur cyflogau aelodau uwch o staff na'r bwch rhwng cyflogau'r rhywiau yn SAUau Cymru, caiff y data hyn eu monitro yn rhan o fusnes arferol CCAUC, a'u hystyried gan Gyngor a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg CCAUC.

Mae data sy'n cael eu monitro a'u cyhoeddi gan CCAUC yn gysylltiedig â chyflogau aelodau uwch o staff a'r bwch rhwng cyflogau'r rhywiau yn SAUau Cymru ar gael ar wefan CCAUC. Mae data ar gyflogau aelodau uwch o staff a data ar y bwch rhwng cyflogau'r rhywiau hefyd ar gael yn nata agored HESA.

### 26. Data cydraddoldeb ac amrywiaeth y staff

[Dolen i'r dudalen ystadegau cydraddoldeb ac ystadegau ar wefan CCAUC](#)

[Dolen i ddata staff agored HESA \(yn cynnwys tablau ar nodweddion cydraddoldeb\)](#)

Er na phennwyd mesuriad penodol yn gysylltiedig â chydraddoldeb ac amrywiaeth staff yn SAUau Cymru, caiff y data hyn eu monitro yn rhan o fusnes arferol CCAUC a'u hystyried gan Gyngor CCAUC, y Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad Myfyrwyr ac Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol CCAUC.

Cyhoeddir data cydraddoldeb ac amrywiaeth staff ar lefel sector ar wefan CCAUC, ac mae data cydraddoldeb ac amrywiaeth staff ar lefel DAU ar gael yn nata agored HESA.

**Gwaith Monitro UE/Rhyngwladol, i gynnwys:**

**27. Myfyrwyr yr UE/Tramor**

*Canran y newid blynyddol yn nifer y:*

*a) Myfyrwyr sy'n hanu o'r UE (ac eithrio'r DU)*

*b) Myfyrwyr tramor (ac eithrio'r UE)*

*sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, ynghyd â chanran y newid blynyddol yn nifer y myfyrwyr hyn, o gymharu â'r ffigur cyfatebol ar gyfer sefydliadau addysg uwch y DU (ac eithrio Llundain a'r De Ddwyrain).*

*a) Myfyrwyr sy'n hanu o'r UE (ac eithrio'r DU)*

Roedd newid canrannol blynyddol yn nifer y myfyrwyr sy'n hanu o'r UE (ac eithrio'r DU) sydd mewn SAUau yng Nghymru yn 11.7 y cant yn 2016/17 ac yn 5.0 y cant yn 2017/18, y naill ffigur a'r llall yn uwch na ffigur cyfatebol y DU (ac eithrio Llundain a'r De Ddwyrain), sef 6.2 y cant a 3.0 y cant yn yr un drefn.

Ymhlith SAUau unigol yng Nghymru, roedd ffigur 2017/18 yn uwch na ffigur y DU mewn pedwar SAU ac yn is na ffigur y DU mewn pedwar arall.

*b) myfyrwyr tramor (ac eithrio'r UE)*

Roedd y newid canrannol yn nifer y myfyrwyr sy'n hanu o wledydd tramor (ac eithrio'r UE) mewn SAUau yng Nghymru yn -9.7 y cant yn 2016/17 ac yn -1.6 y cant yn 2017/18, y naill ffigur a'r llall yn is na ffigurau cyfatebol y DU, sef -1.5 y cant a 3.5 y cant yn yr un drefn.

Ymhlith SAUau unigol yng Nghymru, roedd ffigur 2017/18 yn uwch na ffigur y DU mewn tri SAU ac yn is na ffigur y DU mewn pump arall.

**28. Staff yr UE / tramor**

*Nifer a chanran y staff academaidd mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sydd*

*a) Yn wladolion yr UE (ac eithrio'r DU)*

*b) Yn wladolion tramor (ac eithrio'r DU)*

*ynghyd â'r newid canrannol blynyddol, a'r newid canrannol blynyddol o gymharu â'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU.*

*a) Gwladolion yr UE (ac eithrio'r DU)*

Rhwng 2015/16 a 2017/18, cododd nifer a chyfran staff yr UE mewn SAUau yng Nghymru ac mewn DAUwyr yn y DU. Yn SAUau Cymru, cododd y nifer o 1,065 i 1,145, a'r gyfran o 11.1 y cant i 11.2 y cant. Yn DAUwyr y DU, cododd y nifer o 33,735 i 37,255, a'r gyfran o 17.0 y cant i 17.7 y cant.

Mewn SAUau yng Nghymru, cododd y nifer a'r gyfran mewn pedwar SAU a gostwng mewn pum SAU.

Yn 2016/17, 6.9 y cant oedd y newid canrannol blynyddol yn nifer y staff o'r UE (ac eithrio'r DU) mewn SAUau yng Nghymru, a oedd yn uwch na'r ffigur cyfatebol ar

gyfer y DU (ac eithrio Llundain a'r De Ddwyrain), sef 6.5 y cant. Yn 2017/18, 0.5 y cant oedd ffigur Cymru, a oedd yn uwch na ffigur y DU o 3.7 y cant.

Ymhlith SAUau unigol yng Nghymru, roedd ffigur 2017/18 yn uwch na ffigur y DU mewn tri SAU ac yn is na ffigur y DU mewn pedwar arall.

*b) gwladolion tramor (ac eithrio'r DU)*

Rhwng 2015/16 a 2017/18 cododd nifer a chyfran staff tramor yn SAUau Cymru ac yn DAUwyr y DU. Yn SAUau Cymru, cododd y nifer o 695 i 865, a'r gyfran o 7.2 y cant i 8.5 y cant. Yn DAUwyr y DU, cododd y nifer o 24,535 i 27,625, a'r gyfran o 12.4 y cant i 13.1 y cant.

Ymhlith SAUau unigol yng Nghymru, cododd y nifer mewn chwe SAU, arhosodd ar yr un lefel mewn un, a gostwng mewn dau. Cododd y gyfran mewn saith SAU a gostwng mewn dau arall.

Roedd y newid canrannol yn nifer y staff sy'n hanu o wledydd tramor (ac eithrio'r UE) mewn SAUau yng Nghymru yn 11.9 y cant yn 2016/17 ac yn 11.3 y cant yn 2017/18, y naill ffigur a'r llall yn uwch na ffigurau cyfatebol y DU, sef 4.6 y cant a 7.7 y cant yn yr un drefn.

Ymhlith SAUau unigol yng Nghymru, roedd ffigur 2017/18 yn uwch na ffigur y DU mewn pedwar SAU ac yn is na ffigur y DU mewn dau arall.

**29. Addysg drawswladol**

Nifer a chanran y myfyrwyr sy'n fyfyrwyr addysg drawswladol mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

Rhwng 2016/17 a 2017/18, cynyddodd nifer a chyfran y myfyrwyr ADW mewn SAUau yng Nghymru, ond yn DAUwyr y DU gostyngodd nifer a chyfran y myfyrwyr hynny. Yn SAUau Cymru cododd y nifer o 24,590 i 26,980 a'r gyfran o 16.9 y cant i 18.2 y cant. Yn DAUwyr y DU, gostyngodd y nifer o 707,915 i 693,695 a gostyngodd y gyfran o 23.4 y cant i 22.8 y cant.

Yn 2017/18, ymhlith SAUau unigol yng Nghymru, ac eithrio Prifysgol Cymru, roedd nifer y myfyrwyr ADW yn amrywio rhwng 30 a 9,895 a'r gyfran yn amrywio rhwng 0.1 y cant a 48.7 y cant. Ym mhrifysgol Cymru 5,635 oedd y nifer a 99.9 y cant oedd y gyfran.